

4.65.

CAN O GLOD

I

J. Lloyd Davies, Yswain, Blaendyffryn,

A'I

Foneddiges serchog;

*Gan Maria Williams, Blaenpantycreuddyn,
Llandyssul.*

1.

O canwn glod i'r Bonedd glân,
Am hela'r *Railway* yn y bla'n;
Squire Davies gaiff y clod,
Ddaeth â'r newydd goreu'r 'rioed,

2.

Waith fod y *Railway*'n d'od yn mla'n,
Y peth na fu erioed o'r bla'n;
Ar clychau'n canu ddydd a nos,
Hoff beraidd sain, heb neb yn gro's.

[Enica 1858]

2

3.

R'ym ninâu'n ei chroesawu 'mla'n,
Gan obaith cawn i lô ar y tân;
A'n plant i dd'od mewn parch a bri,
Mewn cyflym *Drains* i ymwel'd â ni.

4.

Bu *Squire Davies*, barchus wr,
Yn llanw i Wheelber newy'n siwr;
A'i Raw a'i Bicas loyw lan,
Yn *leador* *Railway* dd'od ymla'n.

5.

Bu David Davies, gydâg e',
Yn dodi'r *Railway* yn ei lle;—
Glan wr boneddig parchus y
Am barchu'r henaint gweddus gwiw.

6.

Gosodwn ef mewn cadair lân,
A phawb i'w gario, fawr a mân:
Ow! *Squire Davies*, gaiff y clod,—
O blaid y gwan y mae erioed.

7.

Mae ef yn barchus yn mhob man;
Saif ef o blaid y cryf a'r gwan:
Pan ddelo'r ffordd i ben yn lân,
Y llwm a'r llawn, cant lô a'r tân.

8.

Ond hyn sydd yn fy mlino I,
Beth gawn ar tân nes delo hi?

Pan ballo pob peth yn y byd,
Mae coed Gallt'rodyn eto 'hyd.

9.

Mae'r arian gloywlon wedi ffoi,
A ninau bron a sythu'n ddau;
Does achos i ni lwfrhan,
Mae'r *Squire* mwyn yn trugarhau.

10.

Diolchwn iddo yn mhob man,
Am waith mor dda i'r cryf a'r gwan;
Ceir gweled *Station* cyn bo hir,
Gerllaw Llandyssul;—tyma'r gwir.

11.

Clywais newydd 'rwyf yn coelio,
Fod y *Squire* wedi uno
A Bon'ddiges ieuanc *didy*;
Mae'n lan briod ganddo heddy'.

12.

O mor hoff oedd genyf weled,
Ganddo'n *walko* wraig mor laned;
Ac mor lloned yn ei llygad,
Hi yn wir yw blodeu teir-gwlad.

13.

Ma'i dau lygad fel dau berlyn,
Yn eu dwy-rudd mae dau rosyn;
O mor hardded yw ei gweled!
'Does yn Nghymru wraig mor laned!

14.

O mor hardd yw gweled perlyn,
 Call a phrydferth yn Blaendyffryn ;
 Daeth dwy aden i gyd-dynu,
 Drwy ardaloedd prydferth Cymru.

15.

Bydd *Squire* Davies a'i wraig lon,
 Yn gwel'd ei waith yn d'od ger-bron ;
 Cawn fwyd a diod, glo a chalch,
 Ar hyn o dro bydd pawb yn falch.

Os gofyn neb yn un-lle,
 Pwy wnaeth y geirau hyn ?
 Hen wraig fach, anllythrenog,
 Heb fedru darllen dim ;
 Ni fedraf ddim 'scrifenu,
 Na darllen hefyd chwaith ;
 Neu buasai'r gân yn brydferth,
 Yn d'od i ben ei thaith.

MARIA WILLIAMS.

R. DAVIES, ARGRAFFYDD, CASTELLNEWYDD.